



## **RHAGLEN ARIANNU CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY (Y RHAGLEN) 2015-16**

### **ADRODDIAD ALLBYNNAU DIWEDD Y FLWYDDYN**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau a ganlyn:

Adran	Tudalen
1. Cefndir	3
2. Cyflawniadau Allweddol	3
3. Trosolwg Ariannol	4
4. Camau a Gymerwyd: Mathau o Waith a Wnaed	7
5. Pwy a Ddylai gael Budd o'r Hyn a Wneir	15
6. Ariannu i Grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad.	18
<b>Atodiad 1</b> - Rhestr o Amodau Ariannu	20

## **Crynodeb Gweithredol**

Mae gofyn i awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHTau) o dan Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Maen nhw'n gynlluniau â blaenoriaeth, 10 mlynedd o hyd ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol i bob defnyddiwr - cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, defnyddwyr oddi ar y ffordd ynghyd â phobl â phroblemau golwg a phroblemau symud.

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo arian i weithredu'r CGHTau hyn rhwng 2008-2016 gan ddefnyddio fformiwla ariannu i bob un o'r 22 awdurdod lleol a'r 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhaglen o dan y teitl "Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy" wedi'i gweinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (a Chyngor Cefn Gwlad Cymru gynt) dros y cyfnod ariannu cyfan.

Defnyddiwyd yr ariannu i gyflawni ystod eang ac amrywiol o gamau i wella'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru ac i sicrhau budd i bob rhan o'r gymdeithas.

Daw'r holl wybodaeth sydd wedi'i chasglu yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

Pwyntiau allweddol yr adroddiad hwn yw:

- Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad yw'r camau a ariannwyd fwyaf o hyd;
- Prosiectau a gyflwynwyd sydd wedi'u bwriadu i fod o fudd i fwy nag un grŵp;
- Prosiectau penodol wedi'u cyflwyno i annog mynediad i bawb.

## 1. CEFNDIR

Mae gofyn i awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru lunio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (CGHTau) statudol o dan Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Eu bwriad yw ymdrin â chyfnod o 10 mlynedd a chynnig cynllun â blaenoriaeth ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol i bob defnyddiwr - cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, defnyddwyr oddi ar y ffordd ynghyd â phobl gyda phroblemau golwg a phroblemau symud.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £1.7 miliwn y flwyddyn o arian cyfalaf i weithredu CGHTau yn 2008/9, 2009/10, 2010/11. Yn 2011/12 a 2012/13 y dyrniad oedd £1.4 miliwn. Yn 2013/14 roedd yr ariannu yn £1 miliwn gyda'r un swm yn cael ei ddyrannu yn 2014/15 a 2015-16. Daw hyn â chyfanswm yr ariannu hyd yma i £10.9 miliwn.

Rhodddwyd y cyfrifoldeb ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru i sefydlu Rhaglen Ariannu CGHT a gweinyddu a rheoli'r broses o ddyrannu arian i awdurdodau lleol. Daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y rôl hon ar 1 Ebrill 2013.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno gwybodaeth a gasglwyd yn uniongyrchol gan bob un o'r 24 awdurdod a ariennir<sup>1</sup> (Pob un o'r 22 awdurdod lleol, Parc Cenedlaethol y Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) ynglŷn â'r gwaith **a wnaed** yn 2015-2016, wythfed flwyddyn y Rhaglen. Yn yr un modd, mae gwybodaeth ariannol ac allbwn yn yr adroddiad hwn yn perthyn i bob un o'r 24 awdurdod sy'n derbyn arian. Ble fo'n briodol, mae data CGHT 2014/15 wedi'i gynnwys er cymhariaeth.

Yn ystod y cyfnod ariannu 8 blynedd o hyd, mae nifer o amodau y mae awdurdodau wedi gorfod cadw atynt. Yn 2015-2016 cafodd y rhain eu diwygio gan Lywodraeth Cymru er mwyn eu symleiddio neu'u gwella. At ddibenion adrodd, dylid nodi er nad oedd gofyniad bellach i ymgymryd â phrosiect penodol ar gyfer yr hyn a ddiffiniwyd fel 'grwpiau defnydd isel: grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad' mae awdurdodau wedi adrodd am brosiectau sydd wedi'u cynnal, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys fel rhan o'r adrodd isod. Am ragor o fanylion am yr amodau ar gyfer 2015-2016, gweler Atodiad 1.

## 2. CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Cyflawniadau allweddol yr ariannu yn 2015-2016 yw:

### a) **Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad:**

Defnyddiwyd 76% o'r arian i wella mynediad presennol ar lawr gwlad, gan ddilyn y duedd a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol ble y mae awdurdodau lleol yn bennaf yn defnyddio arian CGHT ar gyfer gwaith ymarferol ar lawr gwlad. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at godi cyfran y rhwydwaith sy'n hawdd ei defnyddio. Eto, mae'r gwaith yn cynnwys gwella dodrefn llwybr megis pontydd, gatiau, gosod meinciau mewn golygfannau allweddol a gwella arwynebau e.e. gwella systemau draenio'r llwybr.

### b) **Gwelliannau sydd o fudd i fwy nag un grŵp - gan gynnwys cerddwyr, beicwyr a marchogwyr:**

---

<sup>1</sup> Mae 23 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn gorchuddio Cymru gyfan. Er 2009-2010, derbyniodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro sydd â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro ariannu yn uniongyrchol gan Gyngor Cefn Gwlad a chan hynny adroddodd ar waith a gyflwynwyd ar wahân i'r Cyngor.

Roedd prosiectau a oedd o "fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" a phrosiectau a oedd o "aml-fudd" (o fudd i fwy nag un math o ddefnyddiwr) i gyfrif am 52% o gyfanswm gwerth prosiectau a ariannwyd eleni. Dengys hyn fod y Rhaglen yn cyflwyno camau i nifer o wahanol weithgareddau ac ystodau o allu. Eleni "aml-fudd gan gynnwys Grwpiau Defnyddwyr Isel" oedd y categori a nodwyd ar gyfer y nifer fwyaf o gamau (gan gynyddu i 50% o'r gwerth ariannu o'i gymharu â 48% yn 2014/15). Bydd natur y prosiectau hyn yn cael ei dargedu yn fwy penodol i fodloni anghenion pobl.

Mae ystod y buddiolwyr y darperir ar eu cyfer gan yr amryw brosiectau hyn yn eang: er enghraifft,

- roedd 34% o brosiectau aml-fudd yn darparu ar gyfer y grŵp defnyddwyr "cerddwyr, beicwyr a marchogwyr";
- roedd 5% o brosiectau aml-fudd yn darparu ar gyfer grwpiau 'defnydd isel' gan gynnwys defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symud, pobl â bygis ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf;
- Roedd cerddwyr i gyfrif am 50% o werth y camau a fyddai yn cael budd o'r camau a gynhaliwyd.

Roedd gweddill y prosiectau hyn o fudd i ystod gyfan o ddefnyddwyr mewn cyfuniadau gwahanol e.e. "cerddwyr, Pobl gyda symudedd cyfyngedig", neu "Cerddwyr, Beicwyr, Marchogwyr, Gyrwyr Cerbydau, Defnyddwyr Cerbydau". Cafwyd nifer o wahanol gyfuniadau o ddefnyddwyr.

**c) Gwelliannau sydd, yn benodol, yn hwyluso mynediad pobl a all ei chael hi'n anodd i'r awyr agored:**

Fel y crybwyllir uchod, er nad oes unrhyw ofyniad i gyflenwi prosiect penodol ar gyfer 'grwpiau defnydd isel' yn hytrach, ym mhob gwaith gwella 'ar lawr gwlad' ar hawliau tramwy, dylai'r awdurdodau mynediad gydymffurfio ag egwyddorion ar y mynediad lleiaf rhwystrol a hefyd anelu at gydymffurfio, ble bynnag fo hynny'n bosib, gydag arweiniad statudol a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 69 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a gydag arweiniad cysylltiedig CNC 'Trwy Bob Dull Rhesymol'. Er hynny, adroddodd awdurdodau 16 o gamau penodol wedi'u hanelu at hwyluso mynediad i grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad, roedd yr ariannu ar gyfer y prosiectau penodol hyn yn gwneud cyfanswm o £90,217

**ch) Statws llwybrau a seilwaith gwell.**

Mae 907km pellach o'r rhwydwaith hawliau tramwy bellach yn haws ei ddefnyddio yn dilyn gwelliannau y gwnaeth y Rhaglen a ffynonellau ariannu eraill gyfrannu ato yn 2015-16.

Roedd rhan fwyaf y llwybrau a wellwyd yn 2015-2016 naill ai'n llwybrau troed neu lwybrau ceffylau ond mae pob math o lwybrau wedi gweld rhywfaint o welliant.

Mae gwybodaeth am y seilwaith a osodwyd a'i dynnu yn nodi bod yr amod mynediad lleiaf rhwystrol yn cael ei weithredu i wneud y rhwydwaith yn gynyddol hygrych, blwyddyn ar ôl blwyddyn.

### **3. TROSOLWG ARIANNOL**

Roedd Cangen y Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru, unwaith eto, yn llwyddiannus wrth sicrhau ariannu am flwyddyn bellach o'r Rhaglen yn 2015-2016 gyda chyllideb o £1 miliwn.

Gweithiodd CNC i reoli'r gyllideb i sicrhau cymaint o wariant o fewn y prosiect â phosibl a chyflawnwyd cyfanswm o wariant o £999,764 (99.98% o wariant cyllideb).

Dyrannwyd ariannu LIC ar sail fformiwla ariannu y cytunwyd arno, a oedd yn cynnwys swm sylfaenol o £25,000 ar gyfer pob awdurdod gyda'r ariannu ychwanegol yn cael ei ddyrannu ar sail fformiwla. O fewn pob awdurdod fe gyfrifwyd y fformiwla ar sail pwysau o 65% ar hyd CGHT (gan gynnwys hawliau tramwy yn y parth arfordirol), 25% ar boblogaeth arferol (a ddiweddarwyd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011) a 10% ar ardal tir mynediad.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gwybodaeth am yr £1 miliwn a ddarperir gan LIC ar gyfer y Rhaglen. Yn ychwanegol, buddsoddodd awdurdodau lleol eu hariannu eu hunain a sicrhau mynediad at ffynonellau eraill. Dengys Tabl 1 isod cyfanswm yr arian a wariwyd ar gamau gweithredu CGHT y tu hwnt i ariannu'r LIC, ac mae'n cymharu'r ffigurau hyn gyda gwariant 2014/15.

**Tabl 1: Cyfanswm yr ariannu ar gyfer camau gweithredu'r Rhaglen yn 2015-2016**

Sefydliad	Swm Ariannu (£) 2015/16	Swm Ariannu (£) 2014/15
Ariannu LIC	1,000,000	1,000,000
Gwariant ALI	97,248	150,366
Ffynonellau Ariannu Eraill*	52,538	173,134
<b>Cyfanswm y Rhaglen (£)</b>	<b>£1,149,786</b>	<b>£1,323,500</b>

#### **Gwariant ALI**

Mae hwn yn cyfeirio at gyfanswm yr arian y mae'r awdurdodau wedi cyfrannu o'u cronfeydd eu hunain y tu hwnt i ddyraniad y Rhaglen ar gyfer 2015-16 (ac eithrio costau staff).

#### **\*Ffynonellau ariannu eraill:**

Gofynnwyd i awdurdodau adrodd hefyd ar ffynonellau ariannu eraill yr oeddynt yn gallu tynnu arnynt yn ychwanegol at y ddwy brif ffynhonnell ar gyfer camau gweithredu CGHT.

Roedd ffynonellau ariannu eraill yn gwneud cyfanswm o £52,538 ac yn cynnwys:

- Cyllideb Refeniw eu Hunain;
- Cerdded Er Iechyd Caerdydd;
- Adran Cyfathrebu'r Cyngor ac Awdurdod Harbwr;
- Ariannu Holiday Pathways;
- Cronfa Cymunedau'r Arfordir.

Dylid defnyddio peth gofal wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol (oherwydd bod rhai awdurdodau yn defnyddio'u hariannu eu hunain o dan y categori 'Ffynonellau Ariannu Eraill') mae gwariant Awdurdod Lleol ar brosiectau yr adroddwyd amdanynt o dan y Rhaglen wedi gostwng er 2013/14 (£426,207) ond mae ar lefel debyg i 2012/13 (£198,969 bryd hynny). Yn 2015-16 mae wedi gostwng eto i £97,248.

Mae'n amlwg bod 'ffynonellau ariannu eraill' wedi gostwng yn sylweddol er 2012/13 (£601,437 bryd hynny), ond yn uwch na 2013/14 (£116,868 bryd hynny). Deallwn fod y gostyngiad yn 'ffynonellau ariannu eraill' o ganlyniad i nifer o gytundebau ariannu allanol yn dod i ben yn 2012/13, a allai hefyd esbonio'r cynnydd yng ngwariant ALI ble nad oedd ei angen mwyach fel arian cyfatebol mewn man

arall. Mae gostyngiad cyffredinol mewn cyfraniadau o fan arall yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd cyfredol a gostyngiad cyffredinol mewn cyllidebau a staff o fewn awdurdodau lleol.

#### Rheoli Ariannu:

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd yn rhaid i'r awdurdodau sicrhau bod 40% o ariannu yn cael ei hawlio erbyn yr ail ddyddiad cau hawlio (Rhagfyr 2015) i gynorthwyo wrth reoli cyllideb a'n helpu ni i sicrhau bod yr holl arian yn cael ei ddefnyddio yn y flwyddyn. Fe wnaeth yr holl awdurdodau fodloni'r gofynion hyn ac fe hawliwyd 54% o gyllideb y Rhaglen gyfan erbyn mis Rhagfyr 2015, sy'n sylweddol uwch na'r amod 40%.

Cyflwynwyd yr holl hawliadau eraill ar amser gyda'r dogfennau priodol. Dengys Tabl 2 isod y cynigion ariannu ar gyfer 2015-2016. Fe wnaeth yr holl awdurdodau reoli eu cyllidebau yn dda felly nid oedd angen ailddyrrannu ariannu rhwng awdurdodau.

**Tabl 2: Cynigion ariannu a'r cyfanswm a hawliwyd yn 2015-2016**

Awdurdod	Cynnig Ariannu (£)	Diwygiadau Ariannu	Cyfanswm a hawliwyd (£)
Abertawe	37,286	0	37,286
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	23,864	0	23,865
Bannau Brycheiniog	49,918	0	49,918
Blaenau Gwent	26,786	0	26,786
Bro Morgannwg	31,136	0	31,136
Caerdydd	37,103	0	37,101
Caerffili	37,480	0	37,480
Casnewydd	29,682	0	29,682
Castell-nedd Port Talbot	35,056	0	35,056
Ceredigion	53,521	0	53,521
Conwy	47,410	0	47,177
Cyngor Sir Penfro	23,864	0	23,864
Gwynedd	76,594	0	76,594
Merthyr Tudful	23,931	0	23,931
Pen-y-bont ar Ogwr	32,965	0	32,965
Powys	122,668	0	122,668
Rhondda Cynon Taf	39,519	0	39,519
Sir Ddinbych	40,022	0	40,022
Sir Fynwy	41,304	0	41,304
Sir Gaerfyrddin	54,607	0	54,607
Sir y Fflint	37,699	0	37,699
Torfaen	28,334	0	28,334
Wrecsam	35,666	0	35,664
Ynys Môn	33,585	0	33,585
<b>Cyfanswm (£)</b>	<b>£1,000,000</b>	<b>0</b>	<b>£999,764</b>

#### 4. CAMAU A GYMERWYD: MATHAU O WAITH A WNAED

##### TROSOLWG

Mae ystod y gwaith y gellir ei gynnal i weithredu CGHTau yn eang. Grwpiodd yr awdurdodau eu camau gweithredu yn unol â 'Mathau o Gamau'r Rhaglen' y cytunwyd arnynt. Mae dadansoddiad o nifer a gwerth y gwahanol grwpiau gweithredu hyn yn rhoi gwybodaeth am y math o waith mae awdurdodau yn ei wneud.


Dosbarthwyd y camau fel a ganlyn:

- Gwella mynediad llinellol presennol:** gwelliannau ffisegol i lwybrau e.e. gwella arwyneb llwybrau, gosod neu atgyweirio camfeydd, gatiâu a dodrefn llwybr eraill.
- Creu mynediad llinellol newydd:** creu llwybrau newydd ffisegol.
- Gwella cyfleoedd mynediad eraill:** er enghraifft, gwelliannau i gael mynediad at dir /man gwyrdd naturiol arall.
- Gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir:** er enghraifft arwyddion a chyfeirbwyntiau, ar y safle (e.e. paneli dehongli), oddi ar y safle (e.e. taflenni), gwefan, digwyddiadau, a marchnata.
- Gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol:** er enghraifft systemau ar gyfer cynnal a chadw, gorfodi, monitro ac adrodd.
- Gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer rheoli gwaith mynediad llinellol:** er enghraifft sicrhau bod y map terfynol yn gyfredol, digido'r map terfynol, neu ddatblygu/gwella system rheoli hawl dramwy gyhoeddus yn electronig.
- Dadansoddiad mynediad llinellol ymhellach:** er enghraifft arolwg/dadansoddiad ychwanegol o ddarpariaeth mynediad neu ddadansoddiad ychwanegol o ddefnydd mynediad.
- Mathau eraill o gamau gweithredu:** ble nad oedd unrhyw un o'r uchod yn gymwys.

Dengys **Siart 1 a Thabl 3** isod ddadansoddiad o werth y camau gweithredu (£) a gyflenwyd yn 2015-16, ac yn cymharu'r rhain â gwerthoedd 2014-15. Darperir dadansoddiad manwl o'r sawl a gafodd y budd o'r camau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

##### Siart 1

Total Value of Actions (£) 2015/16 & 2014/15



**Tabl 3: Dadansoddiad o Fath a Gwerth y Camau Gweithredu (gan gynnwys grŵp defnydd isel) 2015 - 2016**

Math Gweithredu'r Rhaglen	Nifer y Camau 2015/16	Gwerth y Camau (£) 2015/16	Gwerth y Camau (£) fel % o'r dyraniad 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) fel % o'r dyraniad 2014/15
a) gwella mynediad llinellol presennol	127	762,183.00	76.24	132	760,505.00	76.06
b) creu mynediad llinellol newydd	12	26,492.00	2.65	11	31,975.00	3.20
c) gwella cyfleoedd mynediad eraill	6	34,922.00	3.49	12	65,760.00	6.58
d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir	16	43,245.00	4.33	17	37,950.00	3.80
e) gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol	4	16,920.00	1.69	3	16,098.00	1.61
f) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer rheoli mynediad llinellol	8	83,151.00	8.32	7	60,711.00	6.07
g) dadansoddiad mynediad llinellol ymhellach	3	6,843.00	0.68	1	3,733.00	0.37
h) Arall	9	26,008.00	2.60	5	23,182.00	2.32
<b>Cyfanswm</b>	<b>185</b>	<b>£999,764.00</b>	<b>100</b>	<b>188</b>	<b>£999,914.00</b>	<b>100</b>

Yn 2015-2016, roedd 76% o'r prosiectau yn ymwneud â gwella mynediad llinellol presennol. Mae hyn yn dilyn y duedd o flynyddoedd blaenorol bod rhan fwyaf o ddyraniad y Rhaglen ar gyfer gwaith ymarferol ar lawr gwlad. Os yw awdurdodau yn dewis mwy nac un Math Gweithredu, maen nhw'n cael eu dosbarthu yn h) 'Arall' gweler tudalen 13 am fanylion pellach.

#### ALLBYNNAU A MANYLION

Gan ystyried pob un o'r mathau gweithredu hyn yn eu tro, gallwn edrych yn fanylach ar nodweddion y gwaith a gyflenwyd. Mae Tablau 4 i 14 yn rhoi dadansoddiad pellach o'r mathau gweithredu uchod.

#### Gwella mynediad llinellol presennol a chreu mynediad llinellol newydd (mathau gweithredu a a b).

Mae £762,183 wedi'i wario ar wella mynediad llinellol presennol ac mae'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn debyg iawn i flynyddoedd blaenorol megis:

- Cynnal gwaith gwella arwyneb i alluogi i lwybrau troed gael eu huwchraddio i lwybrau ceffylau;
- Gwelliannau mynediad i'r llwybr troed i gynnwys newid camfeydd am gatiâu mochyn a phont trawst newydd;
- Tynnu camfeydd a rhwystrau sy'n rhwystro mynediad i ddefnyddwyr trwy dynnu camfeydd penodol, ar hyd llwybrau a hyrwyddir a llwybrau o arwyddocâd lleol;
- Gatiâu sy'n cau eu hunain, arwyddion a chyfeirbwyntiau;



- Gwella mynediad at lwybrau aml-ddefnyddiwr gan ganiatáu i bobl â phroblemau symud i gael mynediad at lwybrau yn haws er enghraifft;
- Green Dog Walker - darparu gwybodaeth i gerddwyr cŵn sy'n defnyddio mynediad cyhoeddus.

Roedd 12 prosiect a greodd mynediad llinellol, ymhlith yr enghreifftiau ohonynt y mae:

- Creu, trwy Orchymyn, Llwybr cyswllt Bach rhwng Fp 48 & Bw 46 Corneli (Cyf Grid. SS 79738002 - SS 79698002);
- Parth Arfordirol - llwybr beicio (Gorchymyn S26 wedi'i gadarnhau Mawrth 15) yn Nhŷ Moelwyn, Porthmadog, SH5720 3848 - SH5725 3840, Paratoi cynllun, lluniadau peirianeg a chaniatâd ar gyfer adeiladu llwybr aml-ddefnyddiwr - cerddwyr, defnyddwyr cadeiriau olwyn, beicwyr.

Dengys Tabl 4 isod y rhannau o lwybrau a gafodd eu gwella i fodloni safonau 'Hawdd eu Defnyddio' dangosydd meincnod Cymru<sup>2</sup>, ac mae'n cymharu'r rhain gyda chilomedrau o welliannau 2014/15. Gofynnwyd i awdurdodau adrodd am gyfanswm hyd y llwybr a gafodd ei wella ar sail cysylltiadau - gyda'r diffiniad bod cysylltiad hawl dramwy gyhoeddus yn dechrau ac yn gorffen ble mae'n cwrdd â:

- chyffordd gyda hawl dramwy gyhoeddus arall;
- ffordd fetlin; a
- ffordd bengaead.

Roedd hyn er mwyn dangos faint o'r rhwydwaith a oedd bellach yn *hawdd ei ddefnyddio* gan y cyhoedd o ganlyniad i welliannau, ac nid dim ond y rhannau o lwybrau yr oedd gwaith ffisegol wedi'i wneud arnynt. **Ni ddylai** cyfanswm yr hyd hwn gael ei briodoli i waith ac ariannu o dan y Rhaglen yn unig. Yn hytrach, mae'r Rhaglen wedi cyfrannu at hyn, ynghyd â sefydliadau a ffynonellau ariannu eraill (awdurdodau lleol eu hunain yn bennaf).

	Km o rwydwaith yn 'hawdd ei ddefnyddio' 2015/16	Km o rwydwaith yn 'hawdd ei ddefnyddio' 2014/15
Llwybr troed	634	475
Llwybr beicio	28	24
Llwybr ceffylau	181	216
Cilffyrdd cyfyngedig	36	25
Cilffyrdd yn agored i bob traffig	28	54
<b>Cyfanswm</b>	<b>907 Km</b>	<b>794 Km</b>

**Tabl 4: Statws a Hyd y Llwybr y mae'r Rhaglen wedi helpu i'w wneud yn 'Hawdd ei Ddefnyddio' yn ystod 2015-2016 a 2014-2015 (gan gynnwys cyfraniadau o ffynonellau ariannu eraill).**

Dengys Tabl 4 (uchod) mai llwybrau troed yw'r math mwyaf cyffredin o lwybr i'w wella o bell ffordd, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod rhwydwaith Cymru yn cynnwys llwybrau troed yn bennaf (79%)<sup>3</sup>. Dengys dadansoddiad o'r wybodaeth hon fod y llwybrau gwell hyn wedi'u dosbarthu ar draws Cymru.

Mae Tabl 5 a 6 yn cynnig gwybodaeth am waith ar y seilwaith o dan y Rhaglen. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae mwy o gatiâu wedi'u gosod/disodli na chamfeydd, ac mae mwy o

<sup>2</sup> Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol yn flaenorol, nid yw'r dangosydd ei hun bellach yn cael ei gasglu gan bob awdurdod ac nid yw'r canlyniadau bellach ar gael yn gyhoeddus.

<sup>3</sup> Adroddiad Ymchwi Polisi Cyngor Cefn Gwlad Cymru Rhif 03/05 - Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002

gamfeydd wedi'u tynnu. Mae hyn yn arwydd bod awdurdodau yn cadw at yr amod i gymhwyso'r ymdriniaeth mynediad lleiaf rhwystrol; sy'n galluogi i gynifer o bobl â phosibl ddefnyddio'r llwybrau sy'n cael eu gwella.

Ymhlith y seilwaith arall sydd wedi'i osod y mae:

Seilwaith Newydd/Olynydd	Nifer yr eitemau 2015/16	Nifer yr eitemau 2014/15
Camfeydd	62	84
Gatiau	476	532
Pontydd	59	101
Mynegbyst	308	272
Pyst Cyfeirbwyntiau	346	294
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,251</b>	<b>1,283</b>

**Tabl 5: Seilwaith wedi'i osod o'r newydd neu wedi'i ddisodli o dan y Rhaglen 2015-2016.**

Seilwaith wedi'i Dynnu	Nifer yr eitemau 2015/16	Nifer yr eitemau 2014/15
Camfeydd	96	97
Gatiau	16	31
<b>Cyfanswm</b>	<b>112</b>	<b>128</b>

**Tabl 6: Seilwaith wedi'i dynnu o dan y Rhaglen 2015-2016.**

### Camau gweithredu sy'n rhan o Lwybr Rhanbarthol/yn cysylltu â Llwyr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru.

Gofynnwyd i awdurdodau ddatgan ble'r oedd camau gweithredu a) a b) yn cynnwys gwaith ar lwybr rhanbarthol, neu ar gysylltiadau â Llwyr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru.

O'r £788,675 a wariwyd ar fynediad llinellol, dengys y tabl isod bod 41% o hyn (£325,735) wedi'i ddefnyddio ar lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo mewn rhyw ffordd ac yn tynnu sylw at y pwysigrwydd y mae rhai awdurdodau yn ei roi ar gynnal a chyfoethogi eu llwybrau blaenllaw.

**Tabl 7: Camau gweithredu sy'n rhan o lwybr rhanbarthol/yn cysylltu â Llwyr Cenedlaethol neu Lwybr Arfordir Cymru yn 2015-2016**

Math o Lwybr	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth (£) fel % o gyfanswm 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o gyfanswm 2014/15
Llwybr Rhanbarthol	14	70,110	22	13	73,713	25
Llwybr Arfordir Cymru	7	27,147	8	10	70,789	24
Llwybr Cenedlaethol	4	30,085	9	3	37,225	12
Arall	30	198,393	61	22	116,698	39
<b>Cyfanswm</b>	<b>55</b>	<b>£325,735</b>	<b>100%</b>	<b>48</b>	<b>£298,425</b>	<b>100%</b>

Cafodd y rhan fwyaf o brosiectau 'eraill' eu hyrwyddo'n lleol ac roeddynt yn llwybrau cymunedol hefyd. Ymhlith yr enghreifftiau o'r math o brosiectau a oedd wedi'u cynnwys o dan y categori 'arall' oedd:

- Cysylltiadau â llwybrau cylchol;
- Roedd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gweithio ar gyswllt â Llwylbrau Rhanbarthol Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau a Hyrwyddir;
- Cysylltiadau â Llwybr Cenedlaethol.

#### **Math o gam gweithredu c) gwella cyfleoedd mynediad eraill.**

Yn ychwanegol at hawliau tramwy lleol, dylai CGHTau gynnwys gwybodaeth am fathau mynediad eraill o fewn ardal yr awdurdod. Dangosodd Adolygiad o CGHT Cyngor Cefn Gwlad Cymru<sup>4</sup> fod 4% o holl Gamau Gweithredu CGHT yn perthyn i dir mynediad a ddynodwyd o dan Gefn Gwlad a Hawliau Tramwy a bod 6% yn ymwneud â chyfleoedd mynediad eraill. Nodir y mathau hyn o gamau gweithredu o dan y Rhaglen yng nghategori c) gwella cyfleoedd mynediad eraill. Dengys Tabl 8 isod y mathau eraill o gyfleoedd mynediad a gafodd eu gwella yn 2015-2016, a chafodd 3.5% o'r ariannu cyffredinol ei ddyrannu iddo i wella mynediad arall, gan adlewyrchu'r pwyslais sy'n cael ei roi ar fynediad llinellol yn y CGHTau eu hunain.

**Tabl 8: Mathau o Fynediad a gafodd eu gwella o dan gategori c) gwella cyfleoedd mynediad eraill 2015-2016**

Math Fynediad	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth fel % o'r cyfanswm 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2014/15
Mannau Gwyrdd Naturiol	5	29,500	84	2	2,638	4
Tir Hawl Dramwy Gyhoeddus	0	0	0	1	0	0
Arall	1	5,422	16	9	63,122	96
<b>Cyfanswm</b>	<b>6</b>	<b>£34,922</b>	<b>100%</b>	<b>12</b>	<b>£65760</b>	<b>100%</b>

Roedd yr 1 prosiect 'arall' yn cynnwys 'Gwella arwyddion a chyfeirbwyntiau ar Hawl Dramwy Gyhoeddus a rhwydwaith Mynediad'.

#### **Math o gam gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir.**

Roedd y math gweithredu hwn wedi'i restru'n ail (o ran nifer y camau gweithredu) ac i gyfrif am 4.3% o'r dyraniad ariannol cyffredinol eleni. Mae'r math hwn o gam gweithredu wedi bod yn ddefnydd cyson boblogaidd o ariannu yn ystod oes y rhaglen. Dangosodd Adolygiad CGHT Cyngor Cefn Gwlad Cymru mai 'gwaith hyrwyddo oddi ar y safle' oedd yr ail fath gweithredu arfaethedig mwyaf cyffredin ar ôl 'rheoli'. Mae hwn yn fath o gam gweithredu y gellir ei gyflenwi ar gost gweddol isel ac mae hefyd yn hanfodol i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn hamdden awyr agored gan fod hyrwyddo llwybrau yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod y llwybrau hyn ar agor ac ar gael.

<sup>4</sup> Adroddiad Ymchwil Polisi Cyngor Cefn Gwlad Cymru Rhif 08/26. Evison, Taylor a Coleman. (2009) *Adolygiad CGHT Cymru*.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r mathau o wybodaeth a gwaith hyrwyddo a ariannwyd.

**Tabl 9: Math o gam gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir 2015-2016**

Math o wybodaeth	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2014/15
Oddi ar y Safle	7	12,500	29	8	7,376	19
Arwyddion a Chyfeirbwyntiau	2	6,481	15	1	2,472	7
Digwyddiadau	2	7,147	17	1	3,485	9
Ar y safle	0	0	0	1	3,000	8
Gwefan	1	5,408	13	0	0	0
Gwybodaeth Arall a Mentrau Hyrwyddo	4	11,709	27	6	21,617	57
<b>Cyfanswm</b>	<b>16</b>	<b>£43,245</b>	<b>100%</b>	<b>17</b>	<b>£37,950</b>	<b>100%</b>

Mae mathau o wybodaeth oddi ar y safle e.e. taflenni yn dal i fod yn ffordd boblogaidd o rannu gwybodaeth â'r cyhoedd. Maen nhw'n gymharol rad i'w cynhyrchu a gellir eu cludo i wahanol fannau e.e. ffeiriau gwledig, canolfannau croeso, eu dosbarthu mewn diwrnodau agored a digwyddiadau hyrwyddo eraill. Mae'n hawdd hefyd trosglwyddo'r copi papur i fersiwn digidol ar gyfer y rhyngwyd y gellir ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn gallu hyrwyddo llwybrau i gynulleidfa sy'n gallu defnyddio technoleg ynghyd â'r rheini sy'n well ganddynt afael ar rywbeth yn eu llaw.

Mae digwyddiadau sy'n dylunio ac yn hyrwyddo'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol yn chwarae rhan bwysig wrth geisio annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored. Maen nhw'n cynnig ffordd o ryngweithio â defnyddwyr newydd a phresennol trwy sgwrsio â hwy a dysgu beth y mae'r defnyddwyr ei eisiau ac yn ei ddisgwyl gan eu rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae digwyddiadau hefyd yn cynnig cyfle perffaith i hyrwyddo'r hyn sydd ar gael i'w fwynhau ar hyn o bryd.

**Tabl 10: Math o gam gweithredu e) gwella systemau/prosesau rheoli mynediad llinellol 2015-2016**

Mae sicrhau bod mynediad llinellol yn cael ei reoli mewn ffordd briodol a gwybodus yn hanfodol i gael rhwydwaith hawliau tramwy sy'n cael ei gynnal yn dda. Mae'r tabl isod yn dangos y gwaith sy'n cael ei wneud o dan y Rhaglen sy'n perthyn i systemau a phrosesau ar gyfer gwella gwaith rheoli.

Math o Gam Gamau Gweithredu	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2014/15
Adrodd	1	3,388	20	0	0	0
Monitro	1	4,000	24	0	0	0
Cynnal a Chadw	0	0	0	3	16,098	100

Arall	2	9,531	56	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>4</b>	<b>£16,920</b>	<b>100%</b>	<b>3</b>	<b>£16,098</b>	<b>100%</b>

Ymhlith y prosiectau y mae:

- Datblygu hygyrchedd ar y we ar gyfer CAMS a chasglu data yn y maes ar gyfer materion cynnal a chadw;
- Parhau i ddefnyddio ac adolygu hysbysiadau gwybodaeth priodol ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus;
- Hyfforddiant Knowledge Hub.

**Tabl 11: Math o gam gweithredu f) gwella cofnodion/cronfeydd data ar gyfer rheoli mynediad llinellol 2015-2016**

Math o Gam Gweithredu	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2014/15
Dwyn ynghyd y map diffiniol	6	45,915	55	4	44,712	74
Datblygu / Gwella system reoli electronig Hawliau Tramwy Cyhoeddus	0	0	0	1	1,425	2
Digido'r Map Diffiniol	1	13,256	16	1	10,579	17
Arall	1	23,980	29	1	3,945	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>8</b>	<b>£83,151</b>	<b>100%</b>	<b>7</b>	<b>£60,661</b>	<b>100%</b>

Mae'r gwaith ar y Map Diffiniol wedi parhau yn 2015-2016, gyda lefel gyson o fewnbwn wrth sicrhau bod y Map Diffiniol yn gyfredol yn ystod y cyfnod ariannu 8 mlynedd o hyd sy'n dangos bod y math gweithredu hwn yn parhau i fod yn sail i reoli hawliau tramwy ac yn nodwedd barhaus ar CGHTau.

Cafwyd 1 penodiad cyfnod penodol yn gweithio ar waith Map Diffiniol a ariannwyd yn llawn gan y Rhaglen. Roedd gwerth y prosiect yn cynnwys holl gostau prosiect, ac nid dim ond costau a oedd yn perthyn i gyflogi staff yn unig.

Roedd y Prosiect Arall yn y tabl hwn yn cynnwys

- Adnabod lleoliadau addas, prynu a gosod cyfarpar monitro ac os yn bosibl hyfforddiant i wirfoddolwyr ei gynnal

**Tabl 12: Math o gam gweithredu g) dadansoddiad ychwanegol ar fynediad llinellol 2015-2016**

Math o ddadansoddiad	Nifer y Camau Gweithredu	Gwerth y Camau Gweithredu	Gwerth (£) fel % o'r	Nifer y Camau Gweithredu	Gwerth y Camau Gweithredu	Gwerth (£) fel % o'r
----------------------	--------------------------	---------------------------	----------------------	--------------------------	---------------------------	----------------------

	edu 2015/16	(£) 2015/16	cyfansw m 2015/16	du 2014/15	(£)2014/15	cyfanswm 2014/15
Arolwg/dadanso ddiad ychwanegol yn ymwneud â darparu mynediad	3	6,843	100	1	3,733	100
<b>Cyfanswm</b>	<b>3</b>	<b>£6,843</b>	<b>100%</b>	<b>1</b>	<b>£3,733</b>	<b>100%</b>

Roedd y camau hyn i ddatblygu ymhellach y rhwydwaith gwirfoddolwyr wrth arolygu a gwneud gwaith cynnal a chadw sylfaenol.

**Tabl 13: Math o gam gweithredu h) 2015-2016 arall**

	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth fel % o gyfanswm 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o gyfanswm 2014/15
Arall	9	26,008	100%	5	23,182	100%
<b>Cyfanswm</b>	<b>9</b>	<b>26,008</b>	<b>100%</b>	<b>5</b>	<b>23,182</b>	<b>100%</b>

Roedd y camau gweithredu a nodwyd fel "Arall" yn cynnwys mwy nag un math o gam gweithredu e.e. roedd gan rai prosiectau elfen o gam gweithredu a) gwella mynediad llinellol ynghyd â math o gam gweithredu d) gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir. Gan hynny mae'n anodd neilltuo'r cam gweithredu penodol hwnnw o fewn y meini prawf presennol ar gyfer mathau gweithredu.

Enghreifftiau o'r prosiectau hyn yw:

- 'Cymorth Swyddog i ddarparu cymorth gweinyddol i raglen recriwtio gwirfoddolwyr newydd gyda'r bwriad o ddarparu hyfforddiant i'w galluogi i ymgymryd ag arolygon cyflwr o hawliau tramwy cyhoeddus ar draws yr ardal awdurdod lleol. Yna bydd y wybodaeth yn cael ei bwydo i'r gronfa ddata CAMS gan wirfoddolwyr gyda chefnogaeth swyddogion;'
- 'Gwelliannau mynediad i hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi'r safle hwn i gynnwys gosod grisiau, gosod gatiu mochyn, gosod pontydd troed trawst;
- Cynyddu darpariaeth llwybr ceffylau fel rhan o ail-alinio/ailosod Hawl Dramwy Gyhoeddus;
- Cynyddu darpariaeth llwybr Ceffylau fel rhan o ail-alinio/ailosod Hawl Dramwy Gyhoeddus ac yn dilyn ymlaen o gais gan ddefnyddwyr/Cyngor Cymuned.

**Tabl 14: Camau a oedd yn cynnwys elfen Bioamrywiaeth 2015-2016**

Roedd amrywiaeth o brosiectau a gynorthwyodd ddealltwriaeth y cyhoedd, neu gadwraeth, ar fioamrywiaeth leol. Er nad oedd gofyniad yn 2015-2016 i bob awdurdod gynnal prosiect penodol (yn hytrach gofyniad cyffredinol i gadw at ddyletswyddau cadwraeth) ble'r oedd awdurdodau wedi adrodd am brosiectau o'r fath roedd hyn wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad.

Math o gamau Bioamrywiaeth	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o'r cyfanswm 2014/15
Prosiectau Bioamrywiaeth	32	165,154	100	32	£200,724	100
<b>Cyfanswm</b>	<b>32</b>	<b>£165,154</b>	<b>100%</b>	<b>32</b>	<b>£200,724</b>	<b>100%</b>

Mae 'prosiectau bioamrywiaeth' yn cyfeirio at gamau sy'n gwella mynediad ac sydd o fudd i gadwraeth natur/bioamrywiaeth hefyd.

Mae gan y camau hyn elfen ymgysylltiad â'r cyhoedd iddynt o ran mae aelodau'r cyhoedd yn dysgu am fioamrywiaeth leol ar y llwybrau y maen nhw'n eu defnyddio. Gellir cyflawni hyn ar ffurf byrddau dehongli ar bwyntiau allweddol ar hyd y llwybr, neu ar bwyntiau mynediad i warchodfa natur leol neu daflenni am fflora a ffawna lleol a ddosbarthir mewn ffeiriau gwledig neu mewn ysgolion.

Mae rhai o'r camau gweithredu bioamrywiaeth hyn yn debyg iawn i fath gweithredu d) Gwella gwybodaeth am fynediad llinellol a'r modd y'i hyrwyddir, ble'r oedd gwaith a gyflwynwyd o dan y math hwn o weithredu yn cynnwys paneli dehongli, taflenni a digwyddiadau.

Ymhlith yr enghreifftiau y mae

- Gwella mynediad at safle o Bwysigrwydd ar gyfer cadwraeth natur tir mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a rheoli'r llwybrau dros y tir er budd bioamrywiaeth a mwynhad anffurfiol o'r llethr;
- Taflen Bioamrywiaeth.

## 5 PWY A DDYLAI GAEL BUDD O'R HYN A WNEIR

Gofynnwyd i awdurdodau nodi pwy a ddylai gael budd o bob cam gweithredu.

**Tabl 15: isod gweler prif fuddiolwyr y Rhaglen – mae hyn yn cynnwys yr holl gamau gweithredu a ariannwyd gan y Rhaglen a'r holl fuddiolwyr 2015-2016 (gweler hefyd Siart 2 isod)**

Buddiolwyr	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth (£) fel % o gyfanswm 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o gyfanswm 2014/15
Aml - fudd (gan gynnwys Grwpiau Defnydd Isel)	70	498,733	50	68	478,116	48
Cerddwyr	93	376,795	38	89	329,356	33
Defnyddwyr Anabl a phobl gyda Phroblemau Symud	10	79,699	8	10	69,520	7

Marchogwyr	5	22,667	2.3	2	7,465	0.7
Budd cyffredinol i bob defnyddiwr	5	15,890	2	8	52,786	5
Eraill	1	4,897	0.5	5	35,455	4
Cerddwyr/ Tirfeddianwyr	1	1,084	0.1			
Defnyddwyr Cerbydau	0	0	0	1	2,472	0.2
Pobl Ifanc, Teuluoedd, Cerddwyr, defnyddwyr anabl, pobl gyda phroblemau symud	0	0	0	2	14,249	1
Grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad	0	0	0	3	10,495	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>185</b>	<b>£999,765</b>	<b>100%</b>	<b>188</b>	<b>£999,914</b>	<b>100%</b>

Yn rhaglen eleni, roedd 3% o'r camau gweithredu o "fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" ac roedd 38% yn "aml fudd" h.y. o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr. Gyda'i gilydd, roedd y prosiectau hyn i gyfrif am 52% o gyfanswm gwerth yr arian eleni.

Yma yn yr un modd ag Adolygiad CGHT Cymru (2009) ac mewn blynyddoedd blaenorol, y grŵp unigol mwyaf o ddefnyddwyr sy'n debygol o gael budd o'r camau gweithredu yw cerddwyr sy'n adlewyrchu'r ffordd mae llwybrau troed i gyfrif am y rhan fwyaf o'r rhwydwaith hawliau tramwy yng Nghymru. Hefyd, nid yw'n bosibl i grwpiau defnyddwyr eraill gael budd penodol yn yr un modd â cherddwyr, oherwydd bydd gwelliannau i llwybrau ceffylau a llwybrau beicio hefyd o fudd i gerddwyr a chan hynny yn gynhenid yn 'aml-fudd'. Roedd prosiectau i gerddwyr yn unig i gyfrif am 38% o ddyraniad ariannol y Rhaglen a 50% o gyfanswm nifer y camau gweithredu cyffredinol.

Un o'r amodau drwy gydol y 7 blynedd flaenorol o'r rhaglen ariannu oedd bod yn rhaid i holl awdurdodau lleol gynnwys o leiaf un cam gweithredu a oedd o fudd i grwpiau 'Defnydd Isel' a ddiffinnir fel "grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad", er enghraifft:

- defnyddwyr anabl;
- pobl â phroblemau symud;
- pobl ifanc.

Petai awdurdod yn cofnodi cam gweithredu fel un "Defnydd Isel" yna roedd yn gam gweithredu wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y grwpiau o bobl a enwyd eisoes.

Ar ôl archwilio'r data ymhellach, mae grwpiau defnydd isel hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau gweithredu eraill nad ydynt wedi'u hanelu yn benodol at grwpiau defnydd isel.

Roedd camau a oedd yn cael eu cofnodi yn "aml-fudd" yn gamau ble'r oedd mwy nag un grŵp wedi'i bwriadu yn benodol i gael budd o ganlyniad i'r gwaith, gan gynnwys y grwpiau hynny sy'n gallu cael



mynediad at gefn gwlad yn haws ac yn amlach h.y. cerddwyr a beicwyr ynghyd â grwpiau "defnydd isel" nad oeddynt yn gallu cael mynediad at y cefn gwlad mor rhwydd.

Ond mae prosiectau sydd â "budd cyffredinol i bob defnyddiwr" yn dueddol o ganolbwyntio ar gynllunio a gwella systemau rheoli.

Dengys Tabl 15 bod 70 o gamau gweithredu yn "aml-fudd" h.y. sydd o fudd i fwy nag un math penodol o ddefnyddiwr. Mae dadansoddiad o'r camau hyn fel a ganlyn:


- Roedd 7 cam gweithredu yn cynnwys grwpiau 'Defnydd Isel' a chofnodwyd eu bodd o fudd i: "gerddwyr, defnyddwyr anabl a rhieni â bygis", "cerddwyr, beicwyr, defnyddwyr anabl, pobl â phroblemau symud, grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad, Cymunedau yn Gyntaf".
- Roedd 5 cam gweithredu wedi'u cofnodi yn 'aml-fudd' ac yn targedu cyfuniadau o ddefnyddwyr mwy abl megis:
  - 2 gam gweithredu sydd o fudd penodol i "gerddwyr, beicwyr a marchogwyr"
  - 1 cam gweithredu sydd o fudd penodol i "Gerddwyr, Beicwyr, cadair olwyn a defnyddwyr â phroblemau symud"

Mae'r un peth yn wir am farchogwyr a beicwyr. Er mai dim ond 24 cam gweithredu sy'n benodol ar gyfer "cerddwyr, beicwyr a marchogwyr", dengys dadansoddiad o bob un o'r 185 cam gweithredu eu bod hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau gweithredu sydd wedi'u targedu yn benodol at grwpiau defnydd isel ynghyd â mewn cyfuniadau o ddefnyddwyr gwahanol. Hefyd, bydd unrhyw gamau gweithredu sydd o fudd i farchogwyr a beicwyr yn gyffredinol yn aml-fudd oherwydd bydd gwelliannau i lwybrau ceffylau a llwybrau beicio hefyd o fudd i gerddwyr.

Mae 8% o gyfanswm y dyraniad ariannol wedi'i ddefnyddio ar gyfer camau wedi'u hanelu at fod o fudd penodol i bobl â phroblemau symud.

## Siart 2

### Main Beneficiaries of the ROWIP Programme



## 6. DYRANNU ARIAN I GRWPIAU SY'N GWNEUD DEFNYDD ANGHYMESUR O ISEL O GEFN GWLAD 2015-2016

Fel y nodir uchod, er nad oes gofyniad ar gyfer 2015/16 i gyflenwi prosiect penodol wedi'i anelu at fodloni'n well anghenion pobl gydag anabledau, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad. Ble adroddodd awdurdodau am brosiectau penodol, mae'r rhain wedi'u cynnwys isod.

**Tabl 16: Math o grŵp 'defnydd isel', nifer a gwerth y camau gweithredu**

Buddiolwr	Nifer y Camau Gweithredu 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth (£) fel % o'r buddiolwyr 2015/16	Nifer y Camau Gweithredu 2014/15	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15	Gwerth (£) fel % o'r buddiolwyr 2014/15
Aml - Fudd	7	23,894	26	13	87,806	47
Pobl gyda Phroblemau Symud	9	66,323	74	8	63,347	34

Defnyddwyr Anabl	0	0	0	2	6,173	3
Pobl Ifanc, Teuluoedd	0	0	0	2	14,249	8
Grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd isel o gefn gwlad	0	0	0	4	10,495	6
Arall	0	0	0	3	6,090	3
<b>CYFANSWM</b>	<b>16</b>	<b>£90,217</b>	<b>100%</b>	<b>32</b>	<b>£188,160</b>	<b>100%</b>

Ymhlith y rheini sydd wedi cael budd o'r 7 cam gweithredu aml-fudd mae:

- Cerddwyr, Beicwyr, defnyddwyr cadair olwyn a defnyddwyr â phroblemau symud;
- Defnyddwyr teuluol, rhai â nam symud, gan gynnwys defnydd mynediad pŵer;
- Defnydd gan grwpiau cerdded i iechyd lleol fel taith gerdded ddiogel i ddechreuwr;
- Defnyddwyr anabl, cerddwyr, cerddwyr cŵn, teuluoedd â bygis.

**Tabl 17: Math o waith a wnaed ar gyfer grwpiau 'defnydd isel' a gwerth y gwaith hwnnw 2015-2016**

Buddiolwr	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2015/16	Gwerth y Camau Gweithredu (£) 2014/15
a) gwella mynediad llinellol presennol	69,963	154,494
b) creu mynediad llinellol newydd	3,654	
c) gwella cyfleoedd mynediad eraill	16,600	32,855
h) Arall	0	811
<b>Cyfanswm</b>	<b>£90,217</b>	<b>£188,160</b>

Mae'r gwaith a wnaed ar gyfer grwpiau 'defnydd isel' wedi bod yn debyg i flynyddoedd blaenorol ac wedi cynnwys:

- Paratoi cynlluniau, cynlluniau peirianeg a chaniatâd ar gyfer adeiladu llwybr aml-ddefnyddiwr - cerddwyr, defnydd cadair olwyn, beicwyr.
- Darparu marcwyr hyder ac arwyddion gweledol, meinciau a seddi a bwrdd gwybodaeth ar safle'r llwybr.
- Darpariaeth maes parcio gyda llwybr arwyneb wedi'i selio, manau pasio, meinciau a seddi cyhyd â bod y llwybr golygfaol uwchlaw dyrffordd y ddau gледdau. Yn berffaith ar gyfer pob grŵp gallu mynediad.

Mae'r gwaith a wnaed yn ystod 2015-2016 wedi bod yn eang, gan unwaith eto alluogi llawer o gamau i gael eu cyflenwi yn erbyn mwy nag un math o gam gweithredu. Mae'n galonogol gweld bod awdurdodau lleol yn parhau i gyflenwi gwaith ar lawr gwlad sy'n "ticio mwy nac un blwch" a chan hynny cael y gorau o'r Rhaglen.

#### **DIWEDD**

Paratowyd y papur hwn gan:

*Susan Jackson (Swyddog Cyllid CGHT),*

*Richard Dearing (Cynghorydd Mynediad a Hamdden Dŵr)*

1. Sylwer yn 2015-2016 diwygiodd LIC rai amodau mewn ymateb i adborth gan awdurdodau lleol.

Yr amodau penodol a gafodd eu heffeithio oedd:

- Cyflwynwyd ym Mlwyddyn 3, pob awdurdod i gyflenwi o leiaf un gwelliant rhwydwaith a fydd hefyd yn cynorthwyo dealltwriaeth gyhoeddus o, neu gadwraeth ar, fioamrywiaeth leol: **Tynnwyd o blaid canolbwyntio ar y dyletswyddau mwy cyffredinol**
- Cyflwynwyd ym Mlwyddyn 3, caniatwyd i awdurdodau lleol ddefnyddio arian y Rhaglen yn y Parth Arfordirol pan roedd Rhaglen Gwella Mynediad i'r Arfordir yn newid ffocws y rhaglen o'r Parth Arfordirol a Llwybr Arfordir Cymru i ganolbwyntio'n unig ar Llwybr Arfordir Cymru mewn pryd i lansiad swyddogol y Llwybr ym mis Mai 2012. **Gofyniad wedi'i dynnu ond yn parhau yn flaenoriaeth uchel:**
- Mae pob awdurdod yn cyflenwi o leiaf un gwelliant sydd wedi'i anelu at fodloni anghenion yr anabl, Cymunedau yn Gyntaf, lleiafrif ethnig neu grwpiau eraill sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad. Yn eu holl waith gwella ar hawliau tramwy 'ar lawr gwlad', dylai'r awdurdodau mynediad hefyd anelu at gydymffurfio, ble bynnag fo hynny'n bosibl, gyda'r arweiniad statudol a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 69 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a gydag arweiniad cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru 'Trwy bob Dull Rhesymol' [a chan hynny cadw at yr egwyddor Mynediad Lleiaf Rhwystrol i fod o fudd i gynifer o ddefnyddwyr cefn gwlad â phosibl]. **Tynnwyd o blaid canolbwyntio ar y dyletswyddau mwy cyffredinol**

**Rhestr o Amodau Rhaglen Ariannu CGHT gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2015-2016 a amlinellir yn adran 11 y llythyr cynnig CGHT:** (roedd y rhain yn ychwanegol at amodau cynnig grant Cyfoeth Naturiol Cymru arferol)

**11. Amodau ychwanegol sy'n benodol i'r prosiect neu'r rhaglen waith hon:**

- a) Yn ychwanegol at Baragraff 2 yr amodau uchod, rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill yn ymwneud â chynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig a gyhoeddir gan CNC.
- b) Rhaid cyflwyno adroddiadau cynnydd gyda'r holl hawliadau ynghyd ag adroddiad diwedd blwyddyn ar fformat y cytunir arno. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ar gynnydd wrth gyflawni cerrig milltir dros dro y cytunir arnynt ac allbynnau targed.
- c) Rhaid i awdurdodau hawlio 40% o'u dyraniad ariannu erbyn mis Rhagfyr 2015.
- d) Os oes arwyddion clir o danwariant tebygol, bydd CNC/LIC yn cadw'r hawl i adfer yr arian a'i ddefnyddio mewn man arall neu gytuno ar ariannu ychwanegol ar gyfer awdurdodau a all ddefnyddio unrhyw danwariant posibl yn effeithiol.

- e) Bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol gymhwyso eu systemau archwilio eu hunain wrth ddefnyddio ariannu rhaglen CGHT a sicrhau bod archwilwyr allanol yn cynnwys hyn yn eu rhaglen archwilio flynyddol.
- f) Yn yr holl waith gwella hawliau tramwy 'ar lawr gwlad', dylai'r awdurdodau mynediad gydymffurfio gydag egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol a hefyd anelu at gydymffurfio, ble bynnag fo hynny'n bosibl, gyda'r arweiniad statudol a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 69 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a gydag arweiniad cysylltiedig CNC 'Trwy Unrhyw Ddull Rhesymol'
- g) Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod y CGHT ar gael ar y rhyngryd. Dylai manylion dolen y we perthnasol gael eu hanfon ymlaen at Susan Jackson unwaith y mae'r amod hwn wedi'i fodloni.
- h) Bydd awdurdodau yn cyflwyno gwybodaeth am y lefel ariannu y maen nhw'n bwriadu ei buddsoddi mewn gwaith rheoli mynediad (bydd tystiolaeth o hyn yn eu dogfennau cyllideb arfaethedig) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn rhoi cadarnhad bod arian Rhaglen CGHT sydd wedi'i ddyrannu yn ychwanegol at eu hariannu arfaethedig ar gyfer gwaith rheoli cefn gwlad yn gyffredinol ac na fydd yr arian newydd yn disodli arian ac adnoddau'r awdurdod ei hun ar gyfer gwaith hawliau tramwy.
- i) Bydd ariannu CGHT yn arian ar wahân ac ychwanegol ar gyfer gweithiau blaenoriaeth ac ni fydd yn addas ar gyfer arian cyfatebol mewn perthynas â grant cefn gwlad CNC.
- j) Ni fydd CNC yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau wedi bodloni'r amod hwn. At ddibenion y rhaglen hon, bydd dadleoli ariannu yn cael ei ystyried fel unrhyw doriad mewn cyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2015-16.
- k) Bydd gwariant cymwys o 1 Ebrill 2015 yn cael ei dalu, **cyhyd â bod y derbyniad wedi'i lofnodi yn cael ei dderbyn gan y Bartneriaeth a'r tîm ariannu'r Undeb Ewropeaidd o fewn 1 mis i ddyddiad y llythyr cynnig**
- l) **Costau Cymwys**  
Arian cyfalaf yw'r adnoddau gennym ni a chan hynny bydd angen ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n gyson ag arweiniad cyfrifo cyfredol ar wariant cyfalaf. Ble y gall costau gael eu cyfalafu yn ddilys fel rhan o'r rhaglen CGHT, gallai eitemau y gellir eu hystyried ar gyfer ariannu gynnwys yr isod:
- i) Staff newydd wedi'u cyflogi i gyflenwi elfennau allweddol o'r rhaglen CGHT. Gallai hyn gynnwys costau staff sydd wedi'u cyflogi i weithio ar y Map Diffiniol, datblygu gwefan a gweithgaredd cyhoedduswydd cysylltiedig arall ac i adnabod a thynnu rhwystrau o lwybrau tramwy os gall y costau hyn gael eu cyfalafu yn ddilys fel rhan o'r rhaglen CGHT
  - ii) Buddsoddiad cyfalaf mewn gwaith gwella (gan gynnwys gwaith i bontydd, uwchraddio arwynebau llwybr troed, gwaith draenio newydd, a dargyfeiriadau ac adrannau newydd o hawliau tramwy wedi'u hyrwyddo gan yr awdurdod lleol).;
  - iii) Buddsoddiad cyfalaf mewn gwaith gwella (gan gynnwys gwaith i bontydd, uwchraddio arwynebau llwybr troed, gwaith draenio newydd, a dargyfeiriadau ac adrannau newydd o hawliau tramwy wedi'u hyrwyddo gan yr awdurdod lleol).

- iv) Cyfeirbwyntiau newydd, dodrefn (camfeydd, ayyb) a byrddau gwybodaeth newydd, ayyb ar hawliau tramwy
  - ii) Gwelliannau penodol wedi'u cynllunio i fodloni anghenion y rheini gyda phroblemau symud (gan fodloni'r arweiniad y cyfeirir ato ym mharagraff 12 iv. isod)
- m)** Mewn achosion ble ceir amheuaeth a yw eitem benodol yn gymwys am ariannu o dan y trefniadau hyn, dylai'r awdurdod lleol ymgynghori â'u Hadran Gyllid eu hunain i sicrhau ei fod yn ddefnydd dilys ar adnoddau cyfalaf. [Bydd angen iddynt gofnodi hyn at ddibenion archwilio].
- n)** **Ariannu yn y Parth Arfordirol**  
Er 2010/11 mae costau cymwys y Rhaglen Ariannu CGHT yn cynnwys blaenoriaethau CGHT o fewn 2 cilomedrau i'r arfordir (y 'parth arfordir') cyhyd ag nad ydynt eisoes yn cael eu hariannu trwy Raglen Datblygu Llwybr Arfordir Cymru ar wahân. Ar ôl agor Llwybr Arfordir Cymru ym mis Mai 2012, mae gwelliannau i lwybrau sy'n cysylltu cymunedau mewndir â'r Llwybr yn debyg o greu llwybrau cylchol poblogaidd, a dylai'r rhain gael eu trin fel blaenoriaeth ar gyfer ariannu CGHT gan awdurdodau arfordirol.
- o)** At ddibenion Rhaglen Ariannu CGHT, nid yw gwaith i gyflenwi Llwybr Arfordir Cymru yn gost cymwys ac ni ddylai ariannu CGHT gael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer Rhaglen Datblygu Llwybr Arfordir Cymru.